



Cynllun Corfforaethol 2008/2009



Cynllun Corfforaethol 2008/2009

Côd stoc: CP07-08W

ISSN (Argraffu): 1744 - 4756

ISSN (Arlein): 1744 - 4764

Copïau pellach ar gael o:

Ffôn 029 2067 8200

Ffôn testun 01686 610205

Ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd

Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu arbennig sydd gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb

Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol; hyrwyddo cymeryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad.

Rydym yn poeni am yr amgylchedd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy.

Ein gweledigaeth

Rydym wedi'n hymrwymo i ddod a gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein Gwerthoedd

Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesi; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i hymrwymo i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel cyflogwr ac ariannwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn amcanu i fabwysiadu dull cynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a derbynwyr grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi ac aelodau staff yn cael eu trin â thegwch.

©Cronfa Loteri Fawr, Gorffennaf 2008

 Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from

The National Lottery[®]

Cynnwys

Mae ein Cynllun Strategol 2006-09 yn amlinellu ein fframwaith strategol ac mae'n cynnwys ein Datganiad Cyrchfan sy'n disgrifio sut olwg fydd ar Gronfa Loteri Fawr lwyddiannus yn 2009. Bob blwyddyn rydym yn adnabod set o amcanion, a bydd gan bob un datganiad o ganlyniadau arfaethedig a'r gweithgareddau a fydd yn cael eu gwneud, a fydd yn ein symud ymhellach tuag at gyflawni gweledigaeth y Datganiad Cyrchfan. Mae'r

Cynllun Corfforaethol a gyflwynir yma ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2008 a mis Mawrth 2009. Mae'n disgrifio ein hamcanion corfforaethol a'r gweithgareddau blaenoriaeth, ein gweithgaredd dosbarthu grantiau arfaethedig, y cyllidebau grant a'r gyllideb costau gweithredu. Byddwn yn adrodd ar ein perfformiad blynyddol yn ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol a gyhoeddir.

1: Cyflwyniad	3
2: Cyd-destun strategol	4
3: Llywodraethu corfforaethol	6
4: Amcanion corfforaethol a gweithgareddau blaenoriaeth 2008/09	9
5: Gweithgaredd dosbarthu grantiau arfaethedig yn 2008/09	11
6: Cyllidebau grant 2008/09	16
7: Cyllideb costau gweithredu 2008/09	18

Adran 2

Cyd-destun strategol

Cronfa Loteri Fawr yw'r mwyaf o ddosbarthwyr y Loteri. Rydym yn gyfrifol am ddosbarthu hanner yr arian a godir ar gyfer achosion da gan y Loteri Genedlaethol. Rydym eisoes wedi cyflawni llawer ers ein sefydlu ym mis Mehefin 2004 trwy uno dau o gyrff dosbarthu'r Loteri yn weinyddol, y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol. Fe'n sefydlwyd yn llawn fel endid cyfreithiol ar 1 Rhagfyr 2006 yn dilyn pasio Deddf y Loteri Genedlaethol 2006. Ar y dechrau un fe gytunodd ein Bwrdd ar ddatganiad cenedlaeth, fel y nodir yn ein Cynllun Strategol 2006-09, sy'n crynhoi diben craidd y Gronfa Loteri Fawr: cyflwyno gwelliannau gwirioneddol i gymunedau, ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus. Rydym wedi datblygu gwerthoedd sefydliadol sy'n cefnogi'r genhadaeth hon.

Datblygwyd ein Cynllun Strategol ar ôl ymgynghoriadau am sut y dylai ein hariannu fod ar gael a beth y dylem ei ariannu. Ar sail y canfyddiadau fe wnaethom ddatblygu fframweithiau a rhaglenni ariannu newydd ar gyfer 2006-09. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi nifer o fesurau i helpu cymunedau i gael mynediad at ein hariannu, a disgrifir y rhain yn ein Cynllun Strategol.

Mae gan ein fframwaith ariannu ar gyfer 2006-09 dri o themâu ariannu ledled y DU ac mae'n pennu canlyniadau cenedlaethol ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Disgrifir y rhain yn Adran 5.

Isod crynhoir elfennau allweddol y cyd-destun strategol yr ydym wedi paratoi ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2008/09 o'i fewn.

2.1 Ein Prif Weithredwr newydd

Penodwyd Peter Wanless ar 28 Ionawr 2008 yn Brif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr ac mae'n arwain y gwaith i sicrhau fod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn cyrraedd gweledigaeth glir am y math o sefydliad y dymunwn fod a'r effaith a'r canlyniadau y gallwn eu cyflawni. Mae hyn yn rhan o'n cynllun strategol ar gyfer 2009 ymlaen.

2.2 Ymgynghori ar ein fframwaith strategol

Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd y Gronfa Loteri Fawr yn datblygu ei fframwaith strategol ar gyfer 2009 ymlaen ac felly bydd yr ymgynghoriad yn weithgaredd allweddol, wedi'i gynllunio hyd at ddechrau mis Tachwedd 2008 gyda lansiad DU cyfan. Mewn sgwrs gyda'r cyhoedd ar draws pob un o bedair gwlad y DU gyfan, bydd yn sicrhau ein bod yn clywed lleisiau'r rheini sydd anoddaf eu cyrraedd.

2.3 Ariannu deallus

Mae ariannu deallus yn ymwneud â dod yn ariannwr gwell trwy ddysgu o'r hyn yr ydym yn ei wneud ac o'r hyn y gall arbenigwyr mewn helpu cymunedau a phobl mewn angen ei ddweud wrthym ynglŷn â ble y gall ein cyfraniad arbennig gael y mwyaf o effaith. Trwy ein gwybodaeth a'n rhwydweithiau sy'n datblygu, gall y Gronfa Loteri Fawr wneud llawer yn fwy na dosbarthu arian. Wrth i ni ddatblygu'r fframwaith strategol newydd ar gyfer 2009 ymlaen byddwn yn ystyried pedwar prif faes. Yn gyntaf, i ba raddau yr ydym yn canolbwyntio ein hariannu ar y rhai mwyaf anghenus. Yn ail, sut y dylem gydbwyso ariannu arloesiad yn erbyn y profedig. Yn drydydd, sut y dylem flaenoriaethu dysgu sefydliadol o fewn y Gronfa Loteri Fawr ac ymhlith y rheini yr ydym yn eu hariannu. Yn olaf, sut y gallem wneud gwell defnydd o'n rhwydweithiau, a'n safle fel ariannwr, i gael fwy o effaith. Bwriadwn i ariannu deallus fod yn sail i bopeth yr ydym yn ei wneud.

2.4 Cyd-destun ariannol

Ar 15 Mawrth 2007 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwlad dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y byddai £638 miliwn o'n cyllideb dosbarthu grant yn cael ei atgyfeirio i ariannu datblygu Gemau Olympaidd 2012 yn ystod y cyfnod rhwng 2009 a 2012. O ganlyniad i hyn, bydd gan y Gronfa Loteri Fawr lai o arian ar gyfer rhaglenni newydd yn ystod y cyfnod hwn na'r hyn a gynlluniwyd yn flaenorol. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i leihau'r effaith ar ein budd-ddeiliaid o'r gostyngiad hwn yn ein hincwm. Serch hynny bydd yn cael dylanwad mawr ar sut y byddwn yn gweithredu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Adran 2

Cyd-destun strategol

2.5 Ariannu o'r tu allan i'r Loteri

Rhoddodd Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 bwerau ychwanegol i ni ddsbarthu arian nad yw'n arian y Loteri. Bellach rydym yn rheoli rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni'r Loteri yn Lloegr, (Asedau Cymunedol a **myplace**), ac yn archwilio cyfleoedd yng Ngwledydd eraill y DU. Yn ychwanegol mae Mesur Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeilad Cwsg ar ei ffordd trwy'r Senedd, ac mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i dewis fel dosbarthwr ar gyfer yr ariannu hwn. Dyma fydd ein rhaglen gyntaf ledled y DU nad yw'n rhaglen y Loteri. Mae union amserlen y ddeddfwriaeth yn parhau'n aneglur ond mae'n annhebyg y bydd arian yn llifo o'r rhaglen hon hyd at ddiwedd 2009. Mae gwybodaeth bellach am ein rhaglenni ac eithrio rhaglenni'r Loteri i'w chael yn adran 5.

2.6 Ail beiriannu'r broses fusnes

Un gofyniad o fod yn ariannwr da yw bod gennych y systemau i gefnogi'r hyn yr ydych yn ceisio'i gyflawni. Yn 2007/08 fe wnaethom ddechrau rhaglen o waith i wella ein prosesau a'n systemau rheoli grant, i sicrhau bod y rhain yn gallu cefnogi ystod y ffyrdd y byddwn yn eu defnyddio i ddyfarnu arian yn y dyfodol. Nod ail beiriannu'r broses fusnes, yr ydym yn amcanu i'w gwblhau yn 2009/10, yw gwella profiad y cwsmer: gwelliannau uniongyrchol yn nhermau gwell gweithdrefnau a llai beichus; a hefyd gwelliannau anuniongyrchol oherwydd bod staff yn cael eu rhyddhau i dreulio mwy o amser ar gefnogi cwsmeriaid wrth gyflawni canlyniadau prosiect a rhannu arfer da.

Adran 3

Llywodraethu corfforaethol

3.1 Y Bwrdd a phwyllgorau

Sefydlwyd ein Bwrdd ar 1 Rhagfyr 2006 yn dilyn pasio Deddf y Loteri Genedlaethol 2006. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y strategaeth gyffredinol, polisi, cyllid, dosbarthu grantiau a gweinyddu'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'n cwrdd o leiaf bob deufis. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd ac 11 o aelodau anweithredol.

Syr Clive Booth yw Cadeirydd y Bwrdd. Mae rhestr o aelodau'r Bwrdd i'w gweld ar ddiwedd yr adran hon.

Pwyllgorau'r pedair gwlad dros Loegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau dyfarnu ar eu rhaglenni gwlad unigol. Maent hefyd yn ffurfio cyfeiriad strategol a pholisi. Mae pwyllgorau Lloegr a'r Alban yn cwrdd bob deufis ar hyn o bryd. Mae Pwyllgor Cymru yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn ac mae Pwyllgor Gogledd Iwerddon yn cwrdd naw gwaith y flwyddyn. Mae rhestr o aelodau bwrdd y gwledydd i'w gweld ar ddiwedd yr adran hon.

Mae nifer o bwyllgorau dosbarthu grantiau yn cael eu cadeirio gan aelodau'r Bwrdd.

- ▶ Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau yn cwrdd bob tri mis. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys cymeradwyo'r rhaglen archwilio fewnol, cefnogi'r gofrestr risgiau a chraffu canlyniad adroddiadau archwilio mewnol ac allanol.
- ▶ Mae'r Pwyllgor Adnoddau yn cwrdd bob tri mis. Mae'n cymeradwyo'r cyllidebau blynyddol, yn goruchwyllo gwariant ac yn monitro cyflenwad a strwythur staffio, cyflog ac amodau staff ac agweddau eraill ar reoli adnoddau dynol.
- ▶ Mae'r Pwyllgor Tâl yn cwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn i ystyried perfformiad a thâl y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr.

Rhaid i holl aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor ddatgan unrhyw ddi-ddordebau perthnasol o dan ein Côd Ymddygiad. Gwneir y datganiadau yn ysgrifenedig ac fe'u cedwir ar ffeil gan Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd. Gall y cyhoedd eu gweld trwy ysgrifennu at y Prif Weithredwr. Cyhoeddir datganiadau aelodau'r bwrdd ar wefan y Gronfa Loteri Fawr.

Mae gan yr Uwch Dîm Rheoli gylch gorchwyl clir ac aelodaeth ddiffiniedig. Mae'n cwrdd o leiaf unwaith y mis i ystyried ein cynlluniau a'n gweithrediadau. Bob tri mis bydd yn derbyn adroddiad cynnydd ar berfformiad yn erbyn amcanion corfforaethol. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn dirprwyo'r dasg fonitro a phenderfyniadau ar ystod o faterion gweithredol i fyrddau pwrpasol.

Adran 3

Llywodraethu corfforaethol

Y Bwrdd



Syr Clive Booth

Cadeirydd
Cadeirydd, Pwyllgor Tâl



Judith Donovan CBE

Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Adnoddau



Anna Southall

Is-Gadeirydd



Roland Doven MBE

Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a
Risgiau



Sanjay Dighe

Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr



John Gartside OBE

Aelod Cyffredinol
Aelod, Pwyllgor Lloegr



Professor Breidge Gadd CBE

Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd
Iwerddon



Esther O'Callaghan*

Aelod Cyffredinol



Alison Magee

Cadeirydd, Pwyllgor yr Alban



Albert Tucker

Aelod Cyffredinol
Aelod, Pwyllgor Lloegr



Huw Vaughan Thomas

Cadeirydd, Pwyllgor Cymru



Diana Whitworth

Aelod Cyffredinol

* Ymddiswyddodd Esther O'Callaghan o'r Bwrdd ym Mai 2008, am resymau personol.

Adran 3

Llywodraethu corfforaethol

Pwyllgorau Gwlad

Pwyllgor Lloegr – Sanjay Dighe (Cadeirydd)

Yr aelodau yw Mohammed Amran, Alan Billings, Sue Charteris, John Gartside, Margaret Hyde, Lydia Thomas, Albert Tucker, Nalini Varma a Geoffrey Wilkinson.

Pwyllgor Gogledd Iwerddon – Breidge Gadd

CBE (Cadeirydd) Yr aelodau yw Paul Cavanagh, Siobhan Craig, Julie Harrison, Claire Keatinge a Peter Osborne.

Pwyllgor yr Alban – Alison Magee (Cadeirydd)

Yr aelodau yw Tim Allan, Elizabeth Cameron, Helen Forsyth, David Green, Alistair Grimes, Kristofer McGhee, Maureen McGinn, Lucy McTernan a Shirley Young.

Pwyllgor Cymru – Huw Vaughan Thomas

(Cadeirydd) Yr Aelodau yw Graham Benfield, Gareth Newton, Janet Reed, Fran Targett, Mike Theodoulou a Barbara Wilding.

3.2 Rheoli risg

Amlinellir ein hymdriniaeth tuag at adnabod a rheoli risgiau yn 2008/09 yn ein Datganiad Polisi a Rheoli Risgiau. Ar ddechrau'r flwyddyn fe wnaeth yr Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau adnabod y risgiau a allai ein hatal rhag cyflawni ein hamcanion corfforaethol. Mae eu hasesiad o'r risgiau hyn wedi cael eu dogfennu mewn cofrestr rigiau corfforaethol a fydd yn cael eu hadolygu'n chwarterol. Lle fo'n angenrheidiol byddwn yn archwilio'r mesurau a sefydlwyd i ffrwyno neu leihau ein datguddiad i risgiau, ac ystyrir yr ardaloedd a allai fod angen eu profi yn ystod y flwyddyn yn ein cynllun archwilio ar gyfer 2008/09. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar ein rheolaeth risg a chanfyddiadau archwilio yn ystod y flwyddyn.

Mae asesiad grant a gweithdrefnau rheoli grant yn gofyn am roi sgôr risg i bob grant, sy'n gosod y lefel ymyrraeth wrth reoli grant.

Adran 4

Amcanion corfforaethol a gweithgareddau blaenoriaeth 2008/09

Blwyddyn ariannol 2008/09 yw blwyddyn olaf ein Cynllun Strategol tair blynedd gyfredol. Rydym wedi adnabod pump o amcanion corfforaethol. Mae gan bob un ddatganiad o ganlyniadau y dymunwn eu cyflwyno a'r gweithgareddau blaenoriaeth y byddwn yn eu sefydlu er mwyn eu cyflawni. Byddwn yn adrodd ar ein perfformiad yn ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol.

Amcan 1: darparu gwasanaeth gwell i ymholwyr, ymgeiswyr a deiliaid grant

Canlyniad: gwell profiad i'r rheini sy'n ymholi am, ymgeisio ar gyfer, neu yn derbyn ein harian; deallir anghenion cwsmeriaid ar draws y busnes; bod ein partneriaid cyflwyno a deiliaid cytundeb yn deall ac yn bodloni ein safonau gwasanaeth.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- ymgyngori gyda'n budd-ddeiliad i adnabod beth yw eu dealltwriaeth o brofiad cwsmer da, a defnyddio hyn i osod ein safonau gwasanaeth
- datblygu a gweithredu strategaeth ddysgu sefydliadol
- hyfforddi ein staff yn y sgiliau i gyflwyno ein safonau gwasanaeth
- gweithredu ein strategaeth gwasanaeth i gwsmeriaid allanol, gan gynnwys datblygu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer rheoli perfformiad a all ddangos elfennau ansoddol o wasanaeth da i gwsmeriaid
- gweithio gyda'n partneriaid cyflwyno a deiliaid cytundeb i gyflawni dealltwriaeth ar y cyd o'n safonau gwasanaeth ac er mwyn cyflwyno a monitro'r safonau hyn.

Amcan 2: uchafu ar effaith ein hariannu

Canlyniad: fframwaith cytûn o raglenni ariannu rhwng 2009 a 2015 wedi'i alinio â'r amgylchedd ariannu; mae rhaglenni ariannu wedi'u cynllunio i gyflawni eu canlyniadau arfaethedig, yn unol â'n cenhadaeth a'n gwerthoedd; a byddwn yn gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â ble mae ein harian yn mynd.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- datblygu ein hymdriniaeth tuag at ariannu deallus
- datblygu fframwaith o raglenni ariannu rhwng

2009 a 2015, gan ystyried yr ymgynghoriad, yr ymchwil a'r gwerthusiad ym mhob gwlad yn y DU a chyfleoedd a ddarperir gan y Gemau Olympaidd a mentrau cynnwys y cyhoedd

- datblygu a chyflwyno rhaglenni gan ddefnyddio arian ac eithrio arian y loteri, gan gynnwys Cyfrifon Cwsg
- cwblhau adolygiad o'r rhaglenni ariannu cyfredol a lle fo'n angenrheidiol ail ganolbwyntio'r rhaglenni hyn i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

Amcan 3: gwella cysylltiadau budd-ddeiliaid

Canlyniad: Budd-ddeiliaid allweddol wedi cysylltu â'n hegwyddorion ariannu deallus a blaenoriaethau ariannu, ganddynt hwy a'r cyhoedd well ymwybyddiaeth o'n llwyddiannau ariannu, ac asiantaethau helpu yn gallu gweithredu'n fwy effeithiol.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- cyfathrebu'r hyn a olygwn gan ariannu deallus, er mwyn cyflawni dealltwriaeth gytûn ar draws y sefydliad ac yn allanol
- lledaenu'r dysg a'r tystiolaeth o'n rhaglenni ariannu
- ymgymryd ag ymgynghoriad gyda budd-ddeiliaid ym mhedair gwlad y DU
- gweithredu strategaethau cyfathrebu mewnlol ac allanol i ddiffinio'r Gronfa Loteri Fawr fel arweinydd mewn arfer ariannu a chodi ymwybyddiaeth o'n llwyddiannau
- gweithio gyda'n partneriaid cyflwyno ac asiantaethau helpu i weithredu strategaeth allgymorth a datblygu.

Amcan 4: datblygu ein galluedd a sicrhau'r gorau o'n pobl

Canlyniad: gweithlu cymwys, galluog ac ymroddedig, a gwelliannau yn y ffordd yr ydym yn cydweithio ar draws y sefydliad.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- gweithredu cynlluniau gweithredu corfforaethol a chyfarwyddiaeth i fynd i'r afael â materion sy'n deillio o arolwg gweithwyr 2007/08

Adran 4

Amcanion corfforaethol a gweithgareddau blaenoriaeth 2008/09

- b) ehangu ac addasu ar ystod y cyrsiau hyfforddi a datblygu a'r offer sydd ar gael i staff a rheolwr i fodloni'r anghenion a adnabuwyd ac anghenion ar ddod
- c) datblygu a gweithredu system rheoli perfformiad ar-lein sy'n gysylltiedig ag adborth 360 a gyda chofnodion gweithgaredd dysgu a datblygu, i alluogi cynllunio, rheoli a gwerthuso perfformiad gweithwyr, asesu gallu a chyflwyno datblygiad
- d) adolygu holl bolisiau a phrosesau Adnoddau Dynol i adnabod pa rai y gellir eu rhesymoli neu eu cyfoethogi i gefnogi datblygiad hunan wasanaethu a gallu rheoli
- e) gweithredu cynllunio olyniaeth; dyfeisio a gweithredu cyfres o raglenni datblygu ar gyfer cyflawnwyr uchel i uchafu eu potensial a sicrhau bod talent yn cael ei reoli ar draws y sefydliad
- f) gweithredu rhaglen datblygu rheolwyr; lansio cyfres o raglenni ar gyfer rheolwyr ar wahanol lefelau i wella'r gallu o'r staff rheng flaen i'r uwch reolwyr
- g) gweithredu'r strategaeth gyfathrebu fewnol.
- e) datblygu modelau busnes cadarnach sy'n cefnogi costio gweithgareddau a rhagolygon adnoddau, a chyflwyno cynllun adnoddau yn y tymor canolig ar gyfer datblygu a chyflwyno raglenni
- f) parhau i weithredu'r cynllun cydraddoldeb hiliol, anabledd a rhywiol ar y cyd
- g) paratoi adolygiad o fframwaith llywodraethu corfforaethol (Pwyllgorau Bwrdd a Gwlad)
- h) bwrw ymlaen gyda throsglwyddo swyddogaethau corfforaethol i Firmingham a gwerthu gofod swyddfa dros ben.

Amcan 5: gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

Canlyniad: bod cynllunio effeithiol, modelu adnoddau a rheoli risgiau yn galluogi gwneud penderfyniadau ar bob lefel rheoli er mwyn alinio ein polisiau, ein harferion a'n rhaglenni yn agos â gweledigaeth gytûn, gan gefnogi'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn eu swyddogaethau.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- a) ymgymryd â phroses gynllunio strategol sy'n cynhyrchu cynllun strategol y cytunwyd arno gan y Bwrdd ar gyfer 2009 ymlaen
- b) adolygu'r wybodaeth reoli a ddarparwyd ar bob lefel i sicrhau ei fod yn cefnogi ein cynllunio, ein perfformiad a'n rheolaeth risg
- c) creu isadeiledd i reoli arian nad yw'n arian y Loteri yn effeithiol, wedi'i integreiddio'n llawn i'n prosesau busnes
- d) ail beiriannu ein prosesau gweithredu trwy raglen i ail beiriannu'r broses fusnes

Adran 5

Gweithgaredd dosbarthu grantiau arfaethedig yn 2008/09

Bellach rydym yn y flwyddyn olaf o gyflwyno'r fframweithiau a'r rhaglenni ariannu a ddisgrifir yn ein Cynllun Strategol 2006-09. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein prosesau dosbarthu grantiau mor effeithiol â phosibl, a byddwn yn isafu biwrocratiaeth ac yn gwella mynediad ar gyfer ein hymgeiswyr. Hefyd trwy barhau i ddatganoli penderfyniadau i'n pwyllgorau yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion penodol pob gwlad, ein nod yw gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â ble mae ein harian yn mynd.

Rydym wedi lansio rhan fwyaf ein rhaglenni y bwriadwn eu cyflwyno hyd at 2009. Mae rhestr o raglenni y byddwn yn eu lansio, gan gynnwys rhaglenni ac eithrio rhaglenni'r Loteri, i'w gweld ar ddiwedd yr adran hon. Yn ystod 2008/09 byddwn hefyd yn parhau i asesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau i'n rhaglenni treigl a rhaglenni ariannu strategol, a rheoli'r grantiau sydd eisoes wedi'u dyfarnu i brosiectau. Mae rhestr o raglenni dan reolaeth i'w gweld ar ddiwedd yr adran hon.

Mae ein holl raglenni o dan ein fframwaith ariannu ar gyfer 2006-09 yn disgyn o fewn themâu ariannu'r DU a chanlyniadau cenedlaethol a gyhoeddir yn ein Cynllun Strategol:

5.1 Themâu DU gyfan

Y rhain yw:

- cefnogi dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd
- hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol
- hyrwyddo lles.

5.2 Canlyniadau cenedlaethol

Y rhain yw:

Lloegr

- gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd, gan gynnwys gallu cael gwell mynediad at hyfforddiant a datblygiad i wella eu sgiliau bywyd
- cymunedau cryfach, gyda mwy o ddinasyddion gweithredol, yn cydweithio er mwyn mynd i'r afael â'u problemau
- gwell amgylcheddau gwledig a threfol, y mae cymunedau yn gallu cael gwell mynediad atynt a'u mwynhau
- pobl a chymunedau iachach a mwy gweithredol.

Yr Alban

- gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd
- cymunedau yn ddiogelach, yn gryfach ac yn fwy galluog i gydweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau
- gwell gwasanaethau ac amgylcheddau, a rhai mwy cynaliadwy, i bobl
- pobl a chymunedau yn iachach.

Cymru

- pobl o bob oed wedi'u cyfarparu â'r sgiliau a'r ddysg i fodloni heriau cymdeithas fodern
- pobl yn cydweithio ar gyfer cymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol
- pobl a chymunedau iachach a mwy gweithredol yn gorfforol.

Gogledd Iwerddon

- cyfle i bobl gyflawni eu llawn potensial
- pobl yn gallu cyfranogi'n weithredol yn eu cymunedau i gyflwyno newid positif
- perchnogaeth gymunedol o amgylcheddau gwledig a threfol gwell a diogelach
- gwell iechyd corfforol a meddyliol i bawb.

5.3 Ariannu o'r tu allan i'r Loteri

Rhoddodd Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 bwerau ychwanegol i ni ddisbarthu arian nad yw'n arian y Loteri a bellach mae hwn yn un agwedd ar ein gweithgaredd dosbarthu grant. Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd y Gronfa Loteri Fawr yn rheoli rhaglen £30 miliwn, Asedau Cymunedol, ar ran Swyddfa'r Trydydd Sector, a rhaglen £190 miliwn, **myplace**, ar ran yr Adran dros Blant, Teuluoedd ac Ysgolion. Mae gan y rhaglenni hyn ganlyniadau sy'n ategu ac yn ychwanegu gwerth at gyflawni canlyniadau'r Gronfa. Byddwn yn dysgu llawer iawn ganddynt, a bydd hyn yn ein helpu i lunio ein strategaeth nad yw'n strategaeth y Loteri.

Adran 5

Gweithgaredd dosbarthu grantiau arfaethedig yn 2008/09

Yn ystod 2008/09 bydd ein gwasanaeth dyfarnu grant yn cynnwys dylanwadu ar y polisi ar gyfer, ac yna ymarferoldeb y rhaglen, Cyfrifon Cwsg (Asedau heb eu Hawlio). Mae'r Mesur Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Cwsg ar ei ffordd drwy'r Senedd, ac mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ei ddewis fel y dosbarthydd ar gyfer yr arian yma. Hon fydd ein rhalen gyntaf DU gyfan nad sy'n raglen y Loteri.

Yr Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd fydd y noddwr yn Lloegr. Gyda nhw, rydym wedi cytuno mai dyma fydd y blaenoriaethau ariannu:

- cyfleusterau ieuencid
- gallu ariannol
- cynhwysiad ariannol, a
- buddsoddiad cymdeithasol.

Yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru bydd y blaenoriaethau yn cael eu gosod yn dilyn ymgynghoriad. Mae maint y rhaglen yn dibynnu ar faint sy'n cael ei gadw mewn cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu cwsg; mae amcangyfrifon ar y swm sydd ar gael yn amrywio o £300 miliwn i fyny. Mae union amserlen y ddeddfwriaeth yn parhau'n aneglur ond mae'n annhebygol y bydd arian yn llifo o'r rhaglen hon hyd at ddiwedd 2009.

5.4 Rhaglenni newydd i'w lansio yn 2008/09

Ymhlith y rhaglenni a fydd yn cael eu lansio yn 2008/09 y mae:

Rhaglen	Dyddiad lansio a gynlluniwyd
Lloegr	
Building and Sustaining Infrastructure Services (BASIS)-ail gylch	Mai 2008
Cronfa Pobl Ifanc Lleol	Mai 2008
myplace* cylch cyntaf	Ebrill 2008
Yr Alban	
2014 Communities	Tachwedd 2008
Venture Fund	Dyddiad lansio i'w gadarnhau

* arian nad yw'n arian y Loteri.

Adran 5

Gweithgaredd dosbarthu grantiau arfaethedig yn 2008/09

5.5 Rhaglenni dan reolaeth yn 2008/09

Yn 2008/09 bydd ein gweithgaredd dosbarthu grantiau yn parhau ar raglenni a lanswyd ym mlynnyddoedd ariannol blaenorol.

Rhaglen	Statws
Ledled y DU	
International Strategic – ail gylch	Agored i geisiadau hyd at Hydref 2008
International Communities	Agored i geisiadau hyd at fis Medi 2008
Parks for People	Agored i geisiadau hyd at fis Medi 2008 (rheolaeth wedi'i dirprwyo i Gronfa Dreftadaeth y Loteri)
Miliynau'r Bobl cylch 4	Agored i geisiadau hyd at fis Mai 2008
Rhaglen Ymchwil	Cau i geisiadau ym mis Chwefror 2008
Llefydd i Natur – trydydd cylch	Cau i geisiadau ym mis Ionawr 2008
Grantiau Bach Rhyngwladol	Cau i geisiadau ym mis Mehefin 2007
Creu Cof Byw	Cau i geisiadau ym mis Mai 2007
Llefydd i Natur – ail gylch	Cau i geisiadau ym mis Rhagfyr 2006
Lloegr	
Awards for All England	Agored i geisiadau
Reaching Communities	Agored i geisiadau
Family Learning	Agored i geisiadau hyd at fis Tachwedd 2008
Community Assets*	Agored i geisiadau hyd at fis Tachwedd 2008
Community Buildings	Agored i geisiadau sydd wedi'u gwahodd i'r ail gyfnod hyd at fis Awst 2008
Children's Play: Playful Ideas	Agored i geisiadau hyd at fis Mehefin 2008
Children's Play	Agored i geisiadau hyd at fis Mai 2008
Young People's Fund National	Agored i geisiadau hyd at fis Ebrill 2008
Advice Plus – ail gylch	Agored i geisiadau hyd at fis Ebrill 2008
Changing Spaces	Ar gau i gynigion partneriaeth ym mis Mawrth 2006; cau i geisiadau ail gyfnod ym mis Chwefror 2007; cynlluniau grant partneriaid yn agored i geisiadau o fis Mawrth 2008
Young People's Fund – Grants to individuals	Cau i geisiadau ym mis Tachwedd 2007
Community Libraries	Cau i geisiadau ym mis Mawrth 2007
Well-being	Cau i geisiadau ym mis Mawrth 2007
Building and Sustaining Infrastructure Services (BASIS)- cylch cyntaf	Cau i geisiadau ym mis Mehefin 2006
Young People's Fund – National Grants (phase 1)	Ar gau i geisiadau
Young People's Fund – Grants to Organisations	Ar gau i geisiadau

* arian nad yw'n arian y Loteri

Adran 5

Gweithgaredd dosbarthu grantiau arfaethedig yn 2008/09

Rhaglen	Statws
Yr Alban	
Awards for All Scotland	Agored i geisiadau
Investing in Ideas	Agored i geisiadau hyd at fis Ionawr 2009
Investing in Communities	Agored i gynigion amlinellol hyd at fis Awst 2008 (yna yn agored i geisiadau llawn a wahoddwyd)
Primetime	Cau i geisiadau ym mis Rhagfyr 2007
Young People's Fund	Cau i geisiadau ym mis Awst 2007
Dynamic Inclusive Communities Portfolio	Cau i geisiadau ym mis Tachwedd 2006
Cymru	
Arian i Bawb	Agored i geisiadau
Pawb a'i Le	Agored i geisiadau hyd at fis Mai 2009
Chwarae Plant	Agored i geisiadau hyd at fis Mawrth 2009
Ffordd o Fyw	Cau i geisiadau ym mis Tachwedd 2007
Iechyd Meddwl	Cau i geisiadau ym mis Medi 2007
Cam wrth Gam	Cau i geisiadau ym mis Mehefin 2007
Cronfa Pobl Ifanc Dyma Dy Gyfle	Agored i geisiadau
Cronfa Pobl Ifanc Help Llaw	Ar gau i geisiadau
Cronfa Pobl Ifanc Pontio	Ar gau i geisiadau
Gogledd Iwerddon	
Awards for All Northern Ireland	Agored i geisiadau
Reaching Communities Northern Ireland	Agored i gynigion amlinellol hyd at fis Mehefin 2008 (yna yn agored i geisiadau llawn sy'n cael eu gwahodd hyd at fis Medi 2008)
Safe and Well	Cau i geisiadau ym mis Gorffennaf 2007; (yna'n agored i geisiadau Cyfnod 2 hyd at fis Hydref 2008)
Live and Learn	Ar gau i geisiadau ym mis Mawrth 2007; (yna'n agored i geisiadau ail gyfnod sy'n cael eu gwahodd hyd at fis Medi 2008)
Improving Community Buildings	Cau i geisiadau ym mis Mai 2007
Building Change Trust	Dim rheolaeth grant mewnol; yr holl arian wedi'i symud i Gronfa Ymddiriedolaeth

Adran 5

Gweithgaredd dosbarthu grantiau arfaethedig yn 2008/09

5.6 Mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn cyfrannu £29 miliwn mewn arian ledled y DU i Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU.

Sefydlwyd y sefydliad elusennol hwn gyda chyfanswm o £40 miliwn o arian gan y Gronfa Loteri Fawr, DCMS (£6 miliwn) a Chyngor Celfyddydau Lloegr (£5 miliwn) i ddiogelu arian ar gyfer prosiectau a fydd yn nodi Gemau Olympaidd 2012 trwy helpu i sicrhau etifeddiaeth ar draws y DU trwy weithgareddau a ymgwymerir gan sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Ar ôl cwblhau'r prosesau Gweithred Ymddiriedolaeth a diwydrwydd dyladwy, symudwyd £28,850,000 o'r Gronfa Loteri Fawr i Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU ym mis Tachwedd 2007.

Adran 6

Cyllidebau grant 2008/09

6. Cyllidebau grant 2008/09

Yn 2005/06 fe wnaethom amlinellu'r ariannu disgwylidig a oedd ar gael ar gyfer pob un o'r rhaglenni. Bob blwyddyn byddwn yn adolygu'r cyllidebau hyn i sicrhau ein bod yn cynnal rheolaeth ariannol gadarn a doeth.

Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i barhau gyda'n portffolio a gyhoeddwyd yn gynharach o raglenni ariannu'r Loteri heb unrhyw newid mawr, i anrhydeddu ein haddewid y bydd o leiaf 60 i 70 y cant o'n harian

yn nhermau arian parod yn mynd i'r sector gwirfoddol a chymunedol, ac i lansio rhaglenni ariannu newydd yn 2009/10.

Mae'r Bwrdd, ar gyngor Pwyllgorau'r Gwledydd, wedi gwneud penderfyniadau terfynol am ein cynllunio ymlaen llawn ar gyfer cyllideb rhaglenni 2008/09 a rhaglenni ariannu. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo cyllidebau grant ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2009 ar gyfer y rhaglenni a ganlyn. Mae'r holl ffigurau a ddangosir yn y tabl isod yn symiau 'hyd at'.

Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr	2008/2009
	£ Miliwn
DU	
Llefydd i Natur (2007)	4.9
International Communities	27.4
International Strategic	
Rhaglen Ymchwil	11.5
Miliynau'r Bobl	6.1
Cyfanswm	49.9

Adran 6

Cyllidebau grant 2008/09

Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr	2008/2009
	£ Miliwn
Lloegr	
Reaching Communities	60.0
Awards for All joint pot	35.0
Children's Play	10.1
Children's Play – Playful Ideas	2.5
BASIS	50.0
Parks for People	36.4
Young People's Fund – Local and national grants	68.0
Advice Plus	18.0
Community Buildings	10.0
Family Learning	10.3
	300.3

Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr	2008/2009
	£ Miliwn
Yr Alban	
Investing in Communities – direct high impact	26.8
Investing in Communities – direct high volume	25.9
Growing Community Assets	24.5
Venture Fund	2.0
Awards for All 2005/09	10.4
Investing in Ideas	1.4
	91.0

Adran 6

Cyllidebau grant 2008/09

Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr	2008/2009
	£ Miliwn
Cymru	
Pawb a'i Le (gan gynnwys cytundeb cymorth)	23.9
Iechyd Meddwl	14.0
Ffordd o Fyw	6.3
Arian i Bawb 2005/09	2.4
Heb ei ddyrannu	1.2
	47.8

Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr	2008/2009
	£ Miliwn
Gogledd Iwerddon	
Reaching Communities	10.9
Building Change Trust	10.0
Awards for All 2005/09	3.4
	24.3

Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr	2008/2009
	£ Miliwn
Rhaglenni etifeddiaeth	
PE and Sport in Schools (England)	2.4
New Opportunities for Quality Childcare (Yr Alban)	0.6
	3.0

Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr	2008/2009
Cyfanswm	£ 516.5

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr £30 miliwn o arian i'w ddsbarthu o dan y rhaglen Asedau Cymunedol ar ran Swyddfa'r Trydydd Sector, a £190 miliwn i'w ddsbarthu o dan y rhaglen **myplace** ar ran yr Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd.

Adran 7

Cyllideb costau gweithredu 2008/09

Cymeradwywyd cyllideb costau gweithredu gan Fwrdd y Gronfa Loteri Fawr ym mis Ebrill 2008.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn amcanu i wario cyn lleied o'i incwm ar ei chostau ei hun, yn gyson â chyflwyno ein hamcanion. Tra nad ydym eisiau biwrocratiaeth ddianghenraid, mae angen i ni sicrhau ein bod yn ariannu yn hygyrch ac yn deg, yn darparu gwasanaeth cwsmer da ac, yn fwy pwysig, yn sicrhau fod y canlyniadau a geisiwn yn cael eu cyflwyno.

Nid 'gweinyddiaeth' yn unig yw rhannau arwyddocaol o'n costau gweinyddu - mae ymgynghori â'n budd-ddeiliaid, cefnogi ymgeiswyr grant a deiliad grant yn eu gwaith a chynnal ymchwil a gwerthuso yn hollbwysig i gyflwyno canlyniadau yn effeithiol. Felly nid ydym yn amcanu i leihau y costau hyn, ond yn hytrach i sicrhau eu bod yn cynnig gwerth am arian.

Mae rhaglenni agored sy'n cyflwyno nifer fawr o grantiau bach yn fwy drud i'w cyflwyno na rhaglenni sy'n gwneud nifer fach o grantiau mawr i grŵp cyfyngedig o bobl, Mae'r math o raglenni yr ydym yn eu cyflwyno yn dibynnu ar hyn sy'n cyflwyno ein canlyniadau orau, nid cost y cyflwyniad.

Yn gyffredinol, rydym yn amcanu i gadw ein costau dosbarthu arian y loteri i lawr i lai na 10 y cant o'n hincwm loteri dros yr hir dymor. Mae costau yn amrywio dros gylch y rhaglen, ac felly o flwyddyn o flwyddyn, ac mae incwm y loteri hefyd yn amrywio y tu allan i'n rheolaeth ni, felly bydd y canran yn anochel yn codi a disgyn yn y byr dymor.

Rydym wedi cynllunio ar gyfer cyllideb costau gweithredu sy'n cyflawni arbedion o 7.8 y cant yn erbyn gweithgaredd cymaradwy 2007/08 ac mae'n cyflwyno cyfanswm o arbediad arian parod o 2.3 y cant ar gyllideb costau gweithredu'r flwyddyn honno. Gyda chyflymder y newid o fewn y Gronfa Loteri Fawr, mae gosod cyllidebau costau gweithredu cadarn i gyflawni targedau effeithlonrwydd wedi profi'n heriol; rydym hefyd yn parhau i amsugno codiadau cyflog a chostau chwyddiant eraill.

Mae cyllideb costau gweithredu 2008/09 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer peth lefel o weithgaredd untro gweddilliol i derfynu'r rhaglenni newid sefydliadol mawr. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau gweddilliol o newidiadau mewn eiddo a phrosiectau isadeiledd TG.

Yn ychwanegol, yn 2007/08 fe wnaethom ddechrau ar raglen ail beiriannu'r broses fusnes dwy flynedd o hyd i adolygu ac uwchraddio ein prosesau a systemau rheoli grant. Disgwyliwn iddynt achosi buddsoddiad arwyddocaol ond cyflwyno gwell effeithlonrwydd a gwelliannau i'r gwasanaeth cwsmeriaid.

Adran 7

Cyllideb costau gweithredu 2008/09

	Cyllideb 2008/09	Cyllideb 2007/08	Newid % flwyddyn ar flwyddyn	2008/09 Gwariant fel % o incwm amcangyfrifedig*
Gwariant ar ddsbarthu arian y Loteri	£54.3	£58.4		
Prosiectau TG	£1.1	£1.7		
	£55.4	£60.1	(7.8%)	8.4%
Gwariant a'i adferwyd o gyrff eraill	£4.4	£3.8		
Prosiect ail beiriannu'r broses fusnes	£4.0	£1.4		
Cyfanswm cyllideb 2008/09	£63.8	£65.3	(2.3%)	9.8%

* senario achos canolog